# Adroddiad Arolygu

**Leanne Thomas**

**Caergybi**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/05/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 8 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf o’r gwasanaeth ers iddo gael ei gofrestru ar 5 Rhagfyr 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Nac ydy |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nac ydy |

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19; felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan. Gwnaethom dreulio cyfnod byr o amser yn y lleoliad er mwyn arsylwi ar y gofal a ddarperir a'r rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant a'r plant y mae'n gofalu amdanynt, a'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant. Gwnaethom ofyn am i rywfaint o wybodaeth a dogfennaeth gael eu hanfon atom yn electronig.

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo, ac maent yn mwynhau treulio amser yn y gwasanaeth. Maent yn hyderus i gyfleu eu dymuniadau a'u hanghenion i'r gwarchodwr plant, ac yn gwybod y bydd yn gwrando arnynt. Mae'r gwarchodwr plant yn garedig ac mae'n siarad â'r plant mewn modd cynnes a magwrus. Mae'n gyfarwydd iawn ag anghenion a dewisiadau unigol y plant, ac yn gwneud ymdrech i helpu'r plant i ffynnu a datblygu'n dda drwy gynllunio amrywiaeth o weithgareddau diddorol, sy'n helpu'r plant i ddysgu a datblygu. Gwnaiff y gwarchodwr plant yn siŵr bod y safle, y teganau a'r adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Caiff peryglon a risgiau eu monitro a'u rheoli yn effeithiol. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn dda ac yn deall ei chyfrifoldebau rheoliadol. Mae'n gwneud yn siŵr bod dogfennau a gwiriadau addasrwydd yn cael eu cadw'n gyfredol, a bod y rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad eu plant ac am unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth.

## Llesiant — Nid Oes Angen Rhoi Gradd

Mae'r plant yn hapus, yn hyderus ac wedi setlo. Maent yn symud o amgylch yr ardaloedd chwarae yn rhydd, a gallant ddewis rhwng y teganau a'r gweithgareddau sydd ar gael, am eu bod yn cael eu storio o fewn eu cyrraedd. Maent yn hyderus i ddilyn eu diddordebau eu hunain a dangos yr hyn y maent am ei gael i'r gwarchodwr plant, er enghraifft, pan roedd un yn awyddus i roi dail mintys a blodau yn y twba dŵr ‘to make it pretty’ (er mwyn gwneud iddo edrych yn hardd).

Mae'r plant wedi meithrin cydberthynas gynnes â'r gwarchodwr plant ac â'i gilydd. Maent yn rhannu adnoddau ac yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn dda.  Cânt sgyrsiau hapus â'r gwarchodwr plant am yr hyn y maent yn ei wneud, am eu bod yn awyddus i'w chynnwys yn eu chwarae. Er enghraifft, wrth roi bath i'r doli, maent yn awyddus i'r gwarchodwr plant helpu ac yn sgwrsio am yr hyn y dylid ei wneud nesaf. Maent hefyd yn mwynhau cael cyfnodau tawel yn edrych ar lyfrau neu'n archwilio'r poteli synhwyraidd yn y babell glyd yn yr ardd, a chânt ryddid i ymuno mewn gweithgareddau pan fyddant yn barod.

Mae'r plant yn hyderus i fynd at y gwarchodwr plant i gael cysur, ac mae hi'n rhoi anogaeth gadarnhaol iddynt ac yn eu cofleidio pan fydd angen.  Er enghraifft, os byddant wedi blino, maent yn dangos hynny i'r gwarchodwr plant, ac yn gofyn am gael eistedd ar ei glin neu iddi ddarllen straeon iddynt, a chânt ymateb cynnes.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae ac yn canolbwyntio'n dda. Maent yn ymddiddori yn yr hyn y maent yn ei wneud, sy'n eu helpu i ganolbwyntio am gyfnod hir o amser ar gyfer eu hoedran. Maent yn llawn cymhelliant i archwilio'r gwahanol ardaloedd a osodwyd gan y gwarchodwr plant ac i feithrin eu sgiliau drwy'r amrywiaeth o brofiadau sydd ar gael, Er enghraifft, cânt gyfle i feithrin eu sgiliau corfforol drwy ddefnyddio'r llithren a chwarae hwpla, ac i ddysgu am y byd o'u cwmpas drwy roi cynnig ar chwarae â dŵr, y gegin fwd a phlannu llysiau a blodau mewn potiau.

Mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau ac maent yn gallu treulio amser yn yr awyr agored.  Maent yn defnyddio'r ardd bob dydd, ac yn mynd i feysydd chwarae, traethau a gwarchodfeydd natur lleol yn rheolaidd lle y cânt gyfle i ddatblygu'n gorfforol. Caiff y plant eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain, megis tacluso ar ddiwedd gweithgareddau a gwisgo eu hesgidiau a'u cotiau eu hunain. Mae hyn yn eu helpu i fagu hyder a hybu eu hannibyniaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae wedi cwblhau hyfforddiant diogelu, ac mae polisi diogelu manwl ganddi ar waith sy'n nodi'r camau cywir i'w dilyn pe bai ganddi unrhyw bryderon am blentyn y mae'n gofalu amdano. Gwnaiff yn siŵr y caiff gwiriadau diogelwch rheolaidd eu cynnal, megis ymarferion tân a gwiriadau dyddiol o'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn cofnodi pob damwain yn ei dyddiadur yn gywir. Fodd bynnag, roedd yn anodd dod o hyd i gofnodion o'r fath ymysg y wybodaeth arall pe bai angen iddi gyfeirio atynt. Mae'n hybu arferion iach a hydradu da yn dda drwy sicrhau bod poteli dŵr y plant ar gael iddynt drwy'r dydd a thrwy wneud yn siŵr bod y plant yn cael byrbrydau a phrydau bwyd iach. Mae'r gwarchodwr plant yn hybu hylendid da yn effeithiol drwy annog y plant i olchi eu dwylo pan fo'n briodol. Fodd bynnag, dywedodd nad yw'n dilyn yr arferion gorau bob amser wrth newid cewynnau am nad yw'n defnyddio ffedog untro bob amser.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant. Mae'n siarad â nhw mewn modd caredig a thyner ac yn delio ag unrhyw ymddygiad digroeso yn bwyllog a theg. Mae'n defnyddio dulliau cadarnhaol yn effeithiol i ailgyfeirio'r plant os byddant yn dechrau dangos unrhyw ymddygiadau annerbyniol. Er enghraifft, pan oedd un o'r plant yn gyndyn o gael cyntun pan oedd wedi blino, aeth ati i setlo'r plentyn ar ei glin yn dyner er mwyn darllen stori i dynnu ei sylw. Rhoddodd y plentyn wybod yn fuan y byddai'n barod i gael cyntun ar ôl y stori.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau sy'n ddiddorol ac sy'n helpu'r plant i ddysgu a meithrin eu sgiliau. Mae'r cynlluniau hyn yn hyblyg ac yn cael eu haddasu yn unol â diddordebau'r plant. Er enghraifft, ar ôl i un o'r plant ddangos ei fod wedi mwynhau'r stori *‘We’re Going on a Bear Hunt’* yn fawr iawn, aeth y gwarchodwr plant ati i addasu gweithgareddau'r wythnos honno ar sail y stori hon. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud ymdrech i ddiwallu anghenion unigol y plant drwy weithio'n effeithiol â'r rhieni ac asiantaethau perthnasol eraill er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn rhoi'r gofal gorau posibl i'r plant hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'n cadw cofnod o gynnydd y plant gan ddefnyddio cymysgedd o ddulliau, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am gynnydd eu plentyn. Defnyddia rhaglen ar-lein i anfon negeseuon at y rhieni bob dydd, sy'n cynnwys lluniau, trefniadau cysgu a bwyta a gwybodaeth am y gweithgareddau y mae'r plant wedi bod yn eu gwneud. Mae hefyd yn olrhain cynnydd a datblygiad y plant yn fanwl gan ddefnyddio system olrhain datblygiad unigol, gan dynnu sylw pryd bynnag bydd y plant wedi cyflawni sgil penodol.

| Yr Amgylchedd | Nid Oes Angen Rhoi Gradd |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân a diogel i'r plant. Mae wedi gosod ardal chwarae un pwrpas yn yr ystafell fwyta, lle mae modd mynd i'r ardd yn hawdd. Ceir amrywiaeth dda o deganau, llyfrau a gweithgareddau i'r plant eu mwynhau yn yr ardaloedd dan do ac awyr agored. Cânt ymlacio ar y soffas hefyd a chael cyfnodau tawel, neu chwarae yn y lolfa os byddant am wneud hynny. Mae asesiadau risg manwl ar waith gan y gwarchodwr plant sy'n nodi'r peryglon posibl a'r mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae polisi ac asesiad risg manwl ar waith ganddi hefyd sy'n nodi'r gweithdrefnau ychwanegol sydd ar waith i atal lledaeniad posibl COVID-19. Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu'r holl asesiadau risg yn rheolaidd, ond nid yw'n nodi dyddiad y gwaith adolygu hwn ar y ddogfen bob amser.

Gwnaiff y gwarchodwr plant yn siŵr ei bod yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau i'r plant gael dewis o'u plith, gan gynnwys doliau, llyfrau, cerbydau bach, jig-sos, teganau adeiladu, cymhorthion cyfrif a deunyddiau celf a chrefft. Mae'n trefnu'r teganau a'r gemau yn dda ac yn eu cadw mewn blychau sy'n cael eu storio ar lefel isel fel y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Mae'r gwarchodwr plant wedi creu ardal chwarae awyr agored ddeniadol sy'n cynnig digon o le i'r plant gael chwarae, archwilio a defnyddio eu synhwyrau. Mae wedi gosod cegin fwd â digon o adnoddau, pabell synhwyraidd gyfforddus ac ardal plannu llysiau a blodau i'r plant gael arogli'r gwahanol blanhigion a chyffwrdd â nhw. Mae hefyd wedi darparu amrywiaeth o deganau sy'n hybu gweithgarwch corfforol, megis llithren, gêm hwpla a thrac peli a wnaed o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.

Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o gyfarpar i gefnogi sgiliau annibynnol y plant iau. Er enghraifft, mae seddi toiled i blant bach ganddi a stôl step yn yr ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod fel bod y plant yn gallu defnyddio'r toiled a golchi eu dwylo yn annibynnol. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn newid y teganau yn rheolaidd i sicrhau bod y plant yn cael amrywiaeth o brofiadau. Roedd y teganau a'r adnoddau a oedd ar gael yn lân ac mewn cyflwr da. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn glanhau'r teganau ar ddiwedd pob diwrnod, ac yn glanhau'n drylwyr yn aml, gan nodi hyn ar gofnod glanhau.

## Arwain a Rheoli — Nid Oes Angen Rhoi Gradd

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth gadarn o'i rôl a'i chyfrifoldebau rheoliadol, ac mae amrywiaeth o bolisïau ganddi sy'n golygu ei bod yn gallu rhedeg ei gwasanaeth mewn modd diogel ac effeithiol. Mae'r polisïau hyn yn glir ac yn llawn gwybodaeth. Rhydd y datganiad o ddiben ddisgrifiad clir a chywir o'r gwasanaeth a gynigir, gan ddarparu digon o wybodaeth i rieni wneud dewis ar sail gwybodaeth. Mae polisi COVID-19 ar wahân ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am y newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r pandemig.

Mae'r gwarchodwr plant yn datblygu system briodol ar gyfer hunanwerthuso. Nid yw wedi cwblhau adroddiad blynyddol ar yr adolygiad o ansawdd y gofal eto am nad yw wedi bod yn gweithredu am flwyddyn o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae'n bwriadu casglu adborth gan y rhieni a'r plant mewn sawl gwahanol ffordd, gan gynnwys holiaduron, arsylwadau ac adborth ar lafar er mwyn cwblhau adolygiad yn ystod y misoedd nesaf. Mae eisoes yn defnyddio ei harsylwadau ar y plant i roi newidiadau ar waith yn unol â'u dewisiadau ac mae'n gwella'r gwasanaeth y mae'n ei gynnig yn barhaus, er enghraifft, drwy brynu teganau a deunyddiau crefft ar sail yr hyn y mae'r plant yn ei hoffi, a'r eitemau y maent yn defnyddio'n amlaf wrth chwarae.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn dda. Mae'n sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ddilys ac yn gyfredol iddi hi ei hun yn ogystal ag i aelodau o'r aelwyd. Roedd y cofnodion a ddarparwyd yn dangos bod y gwarchodwr plant yn casglu'r holl wybodaeth ofynnol am y plant cyn iddynt ddod i'r lleoliad. Mae hyn yn rhoi cyfle iddi gynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion unigol y plant. Mae hefyd yn rhoi copi o holl bolisïau'r gwasanaeth i'r rhieni, ac yn gofyn iddynt eu llofnodi er mwyn dangos eu bod yn eu deall ac yn cytuno â nhw. Mae'r gwarchodwr plant hefyd yn gofyn i'r rhieni lofnodi ffurflenni caniatâd er mwyn i'w plant gymryd rhan mewn teithiau a gweithgareddau yn ystod pandemig COVID-19.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni.  Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth. Gwnaethant ddweud bod y gwarchodwr plant yn rhannu gwybodaeth â nhw am ddatblygiad eu plentyn ac am unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth yn rheolaidd. Gwnaethant hefyd ddweud ei bod yn hawdd iawn mynd at y gwarchodwr plant a'i bod yn barod i helpu gydag unrhyw ymholiadau a oedd ganddynt, ac yn barod i fynd gam ymhellach i ddiwallu anghenion unigol y plant a bodloni eu dewisiadau.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1- Dilyn arferion gorau cyfredol ynghylch gweithdrefnau newid cewynnau drwy ddefnyddio ffedog untro wrth newid cewynnau bob tro.

A2- Nodi dyddiad adolygu dogfennau i ddangos tystiolaeth bod hyn yn cael ei wneud yn rheolaidd.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
| --- |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/07/2021